Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Atodiad 1 –
# Rhestr Wirio Cyllid Strategol a Ddyrennir

Bwriad y rhestr wirio hon yw eich helpu trwy nodi'r canlynol:

**Rhan A: Y camau nesaf o ran ymateb i'r llythyr dyrannu**

**Rhan B: Gwybodaeth y bydd angen ei chyflwyno am Raglenni/Prosiectau at ddibenion diwydrwydd dyladwy technegol ac ariannol.**

## Rhan A: Y camau nesaf o ran ymateb i'r llythyr dyrannu

1. A wnewch chi gysylltu â'ch cynrychiolydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) yn CNC i drafod y dyraniad hwn o £25k.
2. A wnewch chi gadarnhau pa un a ydych yn dymuno elwa o'r cyllid hwn, ai peidio, gan ymateb **o fewn 15 diwrnod gwaith o dderbyn y llythyr yma trwy anfon e-bost i'r cyfeiriad canlynol:**

   **strategicallocatedfunding@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**

   A wnewch chi nodi a ydych yn dymuno elwa o'r dyraniad llawn ynteu swm llai penodol.

   **Os nad ydych yn credu bod y BGC mewn sefyllfa i gyflawni yn erbyn y dyraniad llawn/rhannol eleni, byddwch yn ymwybodol na fydd hyn yn effeithio o gwbl ar unrhyw gynigion i ddyrannu cyllid yn y dyfodol.**
3. Fel partner arweiniol BGC, a wnewch chi gadarnhau y dylai'r cyllid grant gael ei ddyfarnu i chi ac y bydd yr holl hawliadau grant yn cael eu gwneud gennych chi oni bai y cytunir bod CNC eisoes yn arwain prosiect a allai gael cyllid.
4. A wnewch chi gadarnhau y byddwch yn gweithio gyda ni ac aelodau eraill y BGC i lunio cynnig a fydd yn nodi sut y bydd yr arian yn cael ei wario yn ystod y flwyddyn ariannol hon (dylai holl wariant y prosiect gael ei wneud erbyn 31 Mawrth 2021).
5. Nodir yn Rhan B y rhestr wirio hon y math o wybodaeth y bydd yn rhaid ei chyflwyno am y rhaglen/prosiect at ddibenion technegol ac ariannol. Dylai manylder y cyflwyniad fod yn gymesur â graddfa'r dyraniad ac adlewyrchu'r raddfa honno.
6. Os yw'r BGC yn dymuno elwa o'r dyraniad y flwyddyn ariannol hon, a wnewch chi e-bostio eich cynigion a ffurflen Datgan Buddiannau gan eich sefydliad **i'r cyfeiriad canlynol erbyn dydd Gwener 9 Hydref fan hwyraf:**

   **strategicallocatedfunding@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**

## B: Gwybodaeth y bydd angen ei chyflwyno am

# Raglenni/Prosiectau

### Yr hyn rydych eisiau ei wneud

- Disgrifiwch yr hyn y bydd y rhaglen/prosiect yn ei wneud, y cynhyrchion allweddol, a sut rydych yn bwriadu cyflwyno tystiolaeth ynglŷn â chyflawni'r rhain (gallwch ddefnyddio'r tabl yn Adran 1, os dymunwch).
- Disgrifiwch yr adnoddau rydych eu hangen i gyflawni'r rhaglen/prosiect e.e. costau staff, ymgynghorwyr, contractwyr, deunyddiau a gorbenion (llenwch Adran 2).
- Pryd rydych eisiau cychwyn a gorffen y gwaith.
- Sut rydych yn bwriadu gwerthuso'r rhaglen waith/prosiect.
- Disgrifiwch y prif risgiau sy'n gysylltiedig â'r gwaith a sut rydych yn bwriadu eu rheoli. O ystyried y pandemig COVID-19 presennol, a wnewch chi hefyd ystyried hyn fel risg i'ch rhaglen/prosiect a sut y gallai effeithio ar gyflawni'r gwaith.
- Beth fydd yn digwydd ar ôl i'r rhaglen/prosiect ddod i ben, sut y gellir cynnal y canlyniadau, ac a fydd yna gostau parhaus ai peidio.

### Pa wahaniaeth fydd eich rhaglen/prosiect yn ei wneud?

- Beth fydd gwerth ychwanegol y rhaglen/prosiect?
- Beth yw effeithiau cadarnhaol y rhaglen/prosiect?
- A fydd yna effaith negyddol neu gadarnhaol mewn mannau eraill?
- Beth fydd effaith net gyffredinol y gwaith?
- Os na fydd cyllid yn cael ei roi, beth fyddai'n digwydd pe na bai'r gwaith hwn yn cael ei wneud? A fyddai'r prosiect yn cael ei roi ar waith ar ryw adeg neu'n cael ei gyflawni'n rhannol heb unrhyw ymyrraeth?

### Faint fydd yn ei gostio

- Cyfanswm costau'r rhaglen/prosiect (llenwch Adran 2). A allwch ddangos bod y prosiect yn cynnig Gwerth Da am Arian?
- Cyfanswm y grant y gofynnir i CNC amdano a'r amserlen dalu arfaethedig.

### Gwybodaeth Ategol:

- Ffurflen datgan buddiannau.
- Tystiolaeth o unrhyw gynigion cyllido ar gyfer y rhaglen/prosiect gan gyrff cyhoeddus eraill, yn cynnwys cyllid Cymorth Gwladwriaethol ac unrhyw gyllidwyr eraill.
- Manylion am unrhyw Gymorth Gwladwriaethol a gafwyd ar gyfer unrhyw brosiectau eraill yn y tair blynedd diwethaf, yn cynnwys cyllid de-minimis.
- Os ydych yn bwriadu gweithio gyda sefydliad arall i gyflawni'r gwaith, a wnewch chi gyflwyno tystiolaeth o unrhyw gytundeb sydd wedi'i lunio rhyngoch chi a'r sefydliad dan sylw.

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Atodiad 1 –
# Rhestr Wirio Cyllid Strategol a Ddyrennir

## Adran 1: Rhaglen/Prosiect Enghreifftiol

<table>
<tr><td colspan="4">Rhaglen Waith/Prosiect – Trosolwg o'r rhaglen waith/prosiect, yr hyn a fydd yn cael ei gyflawni, sut a phryd.</td></tr>
<tr><td colspan="4"></td></tr>
<tr><td colspan="4">Gweithgarwch / Cynhyrchion / Canlyniadau / Tystiolaeth mewn perthynas â'r Rhaglen/Prosiect</td></tr>
<tr><td>Dyddiad Cychwyn y Rhaglen/Prosiect</td><td></td><td>Dyddiad Gorffen y Rhaglen/Prosiect</td><td></td></tr>
<tr><td>Gweithgarwch<br>(yr hyn y byddwch yn ei wneud yn ystod eich prosiect)</td><td>Cynhyrchion<br>(pethau pendant y gellir eu cyflawni yn sgil eich prosiect)</td><td>Canlyniadau<br>(y newidiadau ehangach y bydd y cynhyrchion hyn yn eu cyflawni)</td><td>Tystiolaeth<br>(sut y byddwch yn gwybod bod eich prosiect yn darparu'r newidiadau y mae'n bwriadu eu cyflawni)</td></tr>
<tr><td></td><td></td><td></td><td></td></tr>
<tr><td colspan="4">Os ydych yn gofyn am fwy nag un cyfnod hawlio ar gyfer y rhaglen/prosiect, a wnewch chi hefyd restru'r Gweithgarwch / Cynhyrchion / Canlyniadau / Tystiolaeth ar gyfer pob cyfnod hawlio:</td></tr>
<tr><td colspan="4">Gweithgarwch / Cynhyrchion / Canlyniadau / Tystiolaeth Cyfnod Hawlio 1</td></tr>
<tr><td>Dyddiad Cychwyn Cyfnod Hawlio 1</td><td></td><td>Dyddiad Gorffen Cyfnod Hawlio 1</td><td></td></tr>
<tr><td>Mewnbynnau – manylion tasgau/gweithgarwch</td><td>Cynhyrchion</td><td>Canlyniadau</td><td>Tystiolaeth</td></tr>
<tr><td></td><td></td><td></td><td></td></tr>
<tr><td colspan="4">Gweithgarwch / Cynhyrchion / Canlyniadau / Tystiolaeth Cyfnod Hawlio 2</td></tr>
<tr><td>Dyddiad Cychwyn Cyfnod Hawlio 2</td><td></td><td>Dyddiad Gorffen Cyfnod Hawlio 2</td><td></td></tr>
</table>

| **Mewnbynnau –** *manylion tasgau/gweithgarwch* | **Cynhyrchion** | **Canlyniadau** | **Tystiolaeth** |
|---|---|---|---|
| | | | |
| *Cynhwyswch gyfnodau hawlio ychwanegol os oes angen* | | | |
| **Rheoli Risg** – *Nodwch risgiau sy'n gysylltiedig â'r rhaglen/prosiect a sut y byddwch yn eu lliniaru.* | | | |
| **Math o Risg** | **Camau Lliniaru** | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

## Adran 2: Cyllid

**CYFANSWM Y RHAGLEN/PROSIECT**

| **Enw'r Rhaglen/Prosiect** | **Swm (£)** | **Blynyddoedd Ariannol** |
|---|---|---|
| | | **Bl1** |
| | | |

**MANYLION Y RHAGLEN/PROSIECT**

| **Categori Gwariant** | **Gwariant Amcangyfrifedig ar gyfer y Rhaglen/Prosiect (£) heb gynnwys TAW** |
|---|---|
| | **Blwyddyn Ariannol 1** |
| Costau Staff *(yn cynnwys cyfraniadau Yswiriant Gwladol a phensiwn y cyflogwr)* | |
| Ymgynghorwyr | |
| Contractwyr | |

| | |
|---|---|
| Deunyddiau | |
| Gorbenion | |
| | |
| **Cyfansymiau** | |

**UNRHYW GYLLID ARALL AR GYFER Y RHAGLEN/PROSIECT**

| Enw'r Cyllidwr | Swm (£) | Sicredig Ydyw/Nac ydyw |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |

**PROFFIL AR GYFER TALIADAU CNC**

| Swm y rhandaliad (£) | Cynnyrch wedi'i gyflawni a thystiolaeth wedi'i chyflwyno | Dyddiad talu |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

## Rheolau Ariannol

- **Cyllid.** Pe bai angen, gallwn ariannu hyd at 100% o gostau eich prosiect.
- Bydd ystyriaethau **gwerth am arian** yn ganolog i bob penderfyniad sy'n ymwneud â defnyddio arian cyhoeddus i gyflawni polisi Cyfoeth Naturiol Cymru. Bydd CNC yn meincnodi costau yn erbyn ffigurau o ffynonellau cydnabyddedig, pan fônt ar gael, i weld a yw costau'r prosiect yn briodol/cymwys/cymesur i gyflawni canlyniadau CNC a gwerth am arian, fel y nodir yng nghynnig y prosiect.
- **Gorbenion yn ymwneud â'r costau cyflog gros a ysgwyddir** ar 15% o'r costau staff – dyma werth a dderbynnir gan yr UE.
- **TAW**. Os nad ydych wedi cofrestru ar gyfer TAW, ac os nad oes gennych unrhyw fwriad i wneud hynny, ni ddylai'r costau gynnwys TAW.
- **Caffael.** Er mwyn sicrhau Gwerth am Arian, disgwylir i'r rhai sy'n cael grant ddefnyddio'u polisi caffael eu hunain. Os nad oes gennych bolisi caffael, yna disgwyliwn ichi ddefnyddio polisi caffael CNC.

- **Rhagdalu.** Fel arfer, rydym yn talu ar ffurf ôl-daliadau ar ôl ichi gyflwyno eich ffurflen hawlio. Dim ond pan fo modd ichi ddangos angen trwy ddefnyddio eich rhagolygon llif arian y byddwn yn ystyried rhoi rhagdaliad ichi. Nodwch yn eich cynnig pam rydych angen rhagdaliad.
- **Lleoliad.** Rhaid i'r gweithgarwch gael ei gynnal yng Nghymru.
- **Nid yw cyllid craidd yn gymwys.** Caiff cyllid craidd ei ddiffinio fel cymorth ariannol sy'n cwmpasu costau sefydliadol a gweinyddol "craidd", yn cynnwys costau cyflogau staff nad ydynt yn rhan o'r prosiect, rhent, offer, cyfleustodau, cyfathrebu a chynnal a chadw. Dylid ystyried bod cyllid craidd yn cwmpasu treuliau gofynnol sy'n annibynnol ar y prosiectau a roddir ar waith.
- Nid yw **mesurau lliniaru** y cytunir arnynt mewn Ceisiadau Cynllunio yn gymwys i gael cyllid grant.
- Ni ddylech gychwyn ar y gwaith hyd nes y cewch lythyr Dyfarnu wedi'i arwyddo. Os ydych yn bwriadu mynd i'r afael â gwaith cyn cael Dyfarniad ffurfiol, cysylltwch â ni.

# Adran 3

## Yr Iaith Gymraeg

Mae gan CNC Bolisi Safonau'r Gymraeg ac mae'r holl gyhoeddiadau sy'n ymwneud â chyllid grant, ynghyd â'r deunyddiau cysylltiedig, ar gael yn y Gymraeg. Rydym yn croesawu negeseuon cyfathrebu yn y Gymraeg, ac ni fydd cynigion a dderbynnir yn y Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na cheisiadau a dderbynnir yn y Saesneg. Byddwn yn cyfathrebu yn newis iaith yr ymgeiswyr, a bydd atebion Cymraeg yn cael eu llunio ar gyfer gohebiaeth a dderbynnir yn y Gymraeg heb i hynny arwain at oedi. Rhaid i'r holl gynigion gydymffurfio â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a bydd yn rhaid iddynt ystyried sut y mae'r prosiect yn hyrwyddo ac yn datblygu'r defnydd o'r Gymraeg ac yn annog arferion dwyieithrwydd da.

## Cydraddoldeb

Mae CNC wedi ymrwymo i alluogi pob unigolyn i elwa o ddulliau cynaliadwy o reoli amgylchedd Cymru, ni waeth beth fo nodweddion personol yr unigolion hyn, megis oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd neu famolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw (gwryw neu fenyw) neu gyfeiriadedd rhywiol. Rhaid i bawb a gaiff grant gan CNC gydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 ac ystyried sut y bydd y cynnig yn datblygu cydraddoldeb ac amrywiaeth o fewn eu prosiect.

## Diogelu Data

Bydd yr wybodaeth a gyflwynir gennych yn cael ei phrosesu gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn unol ag Egwyddorion Diogelu Data a'n Hysbysiad Preifatrwydd er mwyn ein galluogi i brosesu eich cais. Ni fydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyhoeddi gwybodaeth bersonol a fydd yn deillio o'ch cais, ond bydd eich cais llawn yn cael ei rannu'n fewnol gyda'n staff er mwyn inni allu ei brosesu. Byddwn yn storio eich cais yn unol â'n polisi cadw. Efallai y bydd rhai manylion am eich cais yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan. I gael mwy o fanylion, cysylltwch â dataprotection@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

## Rhyddid Gwybodaeth

Mae CNC yn ddarostyngedig i Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004. Mae'r rhain yn rhoi hawliau mynediad at wybodaeth a gedwir gan CNC. Efallai y bydd yn ofynnol inni ddarparu eich cais i drydydd partïon.